LEG-12-2002(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 14 Mai 2002

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

Mick Bates (Cadeirydd) (Democrat Rhyddfrydol)

Lorraine Barrett (Llafur)

Ron Davies (Llafur)

Delyth Evans (Llafur)

John Griffiths (Llafur)

Pauline Jarman (Plaid Cymru)

Dr Dai Lloyd (Plaid Cymru)

Owen John Thomas (Plaid Cymru)

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Dim

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-09-2002 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r ffaith i nifer o bobl fynychu'r seminar ar y cyd ar ddrafftio deddfwriaeth yn ddwyieithog a gynhaliwyd ar 1af Mai gan y Pwyllgor Deddfau a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, a nododd y cyfranogwyr iddi fod yn seminar defnyddiol iawn ac yn llawn gwybodaeth. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr ac i'r swyddogion a drefnodd y seminar. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau ymhellach fod y Pwyllgor yn bwriadu cynnal seminar ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u hymchwilwyr ar ddeddfwriaeth sylfaenol a'r broses ddeddfwriaethol.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod dirprwyaeth o’r **Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol** a **Phwyllgor Dadreoli a Rheoliadol Tŷ’r Cyffredin** wedi mynychu’r Pwyllgor Deddfau ar 22ain – 23ain Ebrill. Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor bellach wedi derbyn llythyron gan Gadeirydd y DRRC Mr Peter Pike AS a chan Glerc y ddau Bwyllgor Mr Huw Yardley yn diolch i’r Pwyllgor am drefnu’r rhaglen. Dosbarthwyd y llythyron i’r Aelodau er gwybodaeth iddynt.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i’w Hystyried**

**LC475 – Rheoliadau Cig (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (Cymru) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.2 Cododd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cwestiynau canlynol a chyflwynwyd ymateb ffurfiol ar ran y Gweinidog priodol:

- A ellir egluro beth yw ystyr y cyfeiriadau at “TVC” yn yr Atodlen ychwanegol 17C o ystyried y ffaith yr ymddengys bod paragraff 5(a) yr Atodlen honno yn rhoi’r ystyr “total viable counts” a’r ystyr “total colony count” i’r term hwnnw?
- Defnyddir y talfyriad ISO mewn nifer o leoedd yn y darpariaethau ychwanegol – a oes ystyr derbyniol i’r talfyriad hwn neu a oes diffiniad sy’n berthnasol iddo?

3.3 O ran y cwestiwn cyntaf nododd y Gweinidog mai gwall oedd y cyfeiriad at “total colony count” a chynigodd fod hwn yn cael ei ddileu drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor â’r cynnig y byddai dileu’r gwall drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau yn briodol. O ganlyniad gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r gwall drafftio fel mater a oedd yn gofyn am gael ei gywiro.

3.5 O ran yr ail gwestiwn eglurodd y Gweinidog fod y talfyriad “ISO” yn cyfeirio at gorff safonol a gydnabuwyd yn rhyngwladol. Awgrymodd y Gweinidog y dylid ychwanegu troednodyn yn egluro’r cyfeiriad.

3.6 Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig i ychwanegu troednodyn ac felly nid oedd ganddynt unrhyw achos i wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r cyfeiriadau hyn.

3.7 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn eu hadroddiad.

3.8 Codwyd cwestiwn ynglŷn â ph’un a oedd y rheoliadau hyn yn cyfeirio at Ratites. Cytunodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol i edrych ar y mater hwn. **Gweithredu: Ymgynghorwyr Cyfreithiol**

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor o’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC475 (Adroddiad).

**LC476 – Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002**

3.10 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid ei gofnodi yn eu hadroddiad.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC476 (Adroddiad).

**LC477 – Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Iechyd Anifeiliaid) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.13 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn eu hadroddiad.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC477 (Adroddiad).

**LC478 – Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.16 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid ei gofnodi yn eu hadroddiad.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC478 (Adroddiad).

**Eitem 4: Trafod yr ymateb i gais y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch dewis gweithdrefnau ar gyfer Offerynnau Statudol – Parhad**

4.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o’r ffaith, yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, i’r Aelodau ddechrau trafod y rhesymau dros ddyrannu gweithdrefnau arbennig i Offerynnau Statudol. Roedd

yr Aelodau yn pryderu ynghylch y prinder gwybodaeth ar y rhesymau dros y defnydd o'r weithdrefn Weithredol.

4.2 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor o'r ffaith i weithdrefn newydd gael ei rhoi ar waith o'r 11eg Ebrill a fyddai'n sicrhau bod gwybodaeth ar y dewis o weithdrefnau ar gyfer Offerynnau Statudol ar gael i Aelodau. Crybwyllodd y Cadeirydd bod yr Aelodau, yn y cyfarfod diwethaf, wedi penderfynu parhau â'r drafodaeth ar ôl asesu'r wybodaeth a oedd bellach ar gael iddynt.

4.3 Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth ddilynol.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod **LC476 - Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002** yn haeddu trafodaeth ehangach gan Aelodau'r Cynulliad na fyddai'n bosibl o dan y weithdrefn gyfredol a ddewiswyd ar ei gyfer (h.y. y weithdrefn Gyflym).
- Cafwyd trafodaeth ynglŷn â manteision y drafodaeth o'r defnydd o weithdrefnau arbennig ar gyfer Offerynnau Statudol yn y Pwyllgor Deddfau. Teimlwyd y byddai hyn yn rhoi cyfle i drafod materion ar y cyd. Gwerthfawrogwyd y ffaith bod gan gyfunoliaeth fwy o ddylanwad nag unigoliaeth.
- Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r ffaith, unwaith y gwneir Offerynnau Statudol drwy gyfrwng Gweithdrefn Weithredol, bod gan Aelodau'r Cynulliad 40 diwrnod i gyflwyno cynnig bod y Gorchymyn yn cael ei ddileu, ond roedd Aelodau yn pryderu y gallai'r ffaith mai dim ond yr opsiwn hwn oedd ar gael iddynt arwain at achosion o gam-drin.
- Nododd y Cadeirydd, o dan Reolau Sefydlog, mai dim ond pwerau craffu dros Is-ddeddfwriaeth a oedd gan y Pwyllgor. Byddai'r broses o graffu ar benderfyniadau ar y dewis o weithdrefnau yn golygu bod y Pwyllgor yn gweithredu y tu allan i'w gylch gwaith ac felly'n ymddwyn yn groes i'r cyngor a dderbyniodd gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol a chan Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd.
- Mynegwyd y ffaith bod y Rheolau Sefydlog yn gosod y dyletswyddau ar gyfer y Pwyllgor yn hytrach na'i wahardd rhag ehangu'r materion yr oedd o'r farn eu bod o fudd i'w hystyried.
- Cyfeiriwyd sylw'r Aelodau yn arbennig at dudalen 35 o Adolygiad y Cynulliad Weithdrefnau, paragraffau 8.7.i 8.9 tra bod y drafodaeth yn cael ei chynnal.

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Mai 2002.